
Asesiad Cystadleuaeth ar gyfer Sianel Deledu BBC Three

Ymgynghoriad ar benderfyniad dros dro Ofcom

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 16 Medi 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 14 Hydref 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer gwasanaethu cynulleidfaoedd ifanc yn well, mae'r BBC yn bwriadu dod â BBC Three yn ôl fel sianel deledu ddarlledu. Ers mis Chwefror 2016, dim ond ar-alw o fewn BBC iPlayer y mae cynnwys BBC Three ar gael.

Yn unol â gofynion Siarter a Chytundeb y BBC, rydym yn ystyried cynigion y BBC drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA). Mae ein rôl yn cynnwys adolygu sut mae'r BBC wedi datblygu ei gynigion a'i asesiad o'u gwerth cyhoeddus. Mae'n rhaid hefyd i ni asesu effaith cynigion y BBC ar gystadleuaeth ac ystyried a yw'r gwerth i'r cyhoedd yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau andwyol yr ydym yn eu nodi. Rydym hefyd wedi ystyried adborth ar y cynigion y mae partion yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb wedi'u darparu'n uniongyrchol i'r BBC ac wrth ymateb i'n [gwahoddiad i roi sylwadau](#).

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein dadansoddiad, a'n casgliadau dros dro y dylid caniatáu i'r BBC ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ddarlledu.

Ein casgliadau dros dro

Mae'r rhain yn gynigion cymharol gul. Mae'r BBC yn bwriadu i'r sianel deledu ddarlledu BBC Three newydd ddarlledu dim ond gyda'r hwyr, rhwng 7pm a 4am bob dydd o fis Ionawr 2022. Nid oes mwy o gyllideb cynnwys yn gysylltiedig â'r cynigion hyn.

Credwn y gallai'r cynigion ddarparu gwerth cyhoeddus ychwanegol. Mae hyn drwy gynyddu argaeledd a chyrhaeddiad cynnwys BBC Three i'r rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys cynulleidfaoedd sy'n cael eu tan-wasanaethu'n gymharol gan y BBC ar hyn o bryd. Er bod y cynigion hyn ond yn debygol o effeithio ar nifer gymharol fach o bobl, mae'r bobl hynny'n bwysig i ddyfodol y BBC, ac felly rydym yn credu y gallai'r cynigion gyfrannu at ei gynladwyedd dros y tymor hwy.

Mae ein dadansoddiad yn dangos nad yw'r newidiadau'n debygol o gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth. Rhagwelir y bydd BBC Three yn sianel linol gymharol fach. Rydym yn amcangyfrif y gallai ei gyfran o wylwyr (llinol a fideo ar-alw) gyrraedd 1.5% yn 2022 ar gyfer pob unigolyn 4+ oed+. Mae hyn yn gynydd o 0.8 pwynt canrannol yn y gyfran o wylwyr, o'i gymharu ag aros ar BBC iPlayer yn unig. Er i ni nodi'r potensial ar gyfer effaith gymharol fach ar ITV a Channel 4, credwn ei bod yn annhebygol o newid eu cymhellion i arloesi neu i fuddsoddi mewn cynnwys newydd yn sylweddol.

Ein casgliad dros dro yw bod gwerth cyhoeddus y cynnig i ail-lansio BBC Three yn cyfiawnhau'r effaith ar y farchnad yr ydym wedi'i nodi, ac felly gall y BBC fwrw ymlaen â'i chynnig. Rydym yn awr yn ymgynghori tan 14 Hydref 2021 ar ein casgliadau dros dro ac yn disgwyl cyhoeddi penderfyniad terfynol erbyn mis Rhagfyr 2021.

Rydym yn cynnig amodau Trwydded Weithredu newydd i'w gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu rhannau allweddol o'i gynigion. Rydym hefyd yn disgwyl i'r BBC fynegi'n dryloyw sut y bydd yn cyflwyno'r hyn y mae wedi ymrwymo iddo o ran pwysigrwydd y gwerth i'r cyhoedd ac yna adrodd ar ei berfformiad.

Dim ond crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Disgrifir y casgliadau dros dro yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.